**Asesiad Goleuo - Crynodeb Gweithredol (v2)**

1.1.1 Mae'r Asesiad Traweffaith Goleuo wedi'i hysgrifennu gan DFL (Designs for Lighting Ltd1), ymgynghoriaeth dylunio goleuo sy'n arbenigo mewn Asesiadau Traweffaith Goleuo, lliniaru golau sy'n tynnu sylw, a dylunio goleuo manwl.

1.1.2 Fe wnaeth yr Asesiad Traweffaith Goleuo asesu'r goleuo arfaethedig yng nghyn Waith Alwminiwm Môn, yng Nghaergybi (Safle'r Cais).

1.1.3 Mae'r Datblygiad Arfaethedig ar gyfer 2.3 metr sgwâr mewn amrywiaeth o ddefnyddiau cyflogaeth fel y dangosir yn y Cynllun Paramedrau'r Datblygiad Arfaethedig (**Ffigwr 6**).

1.1.4 Bydd y gwaith goleuo sy'n gysylltiedig gyda'r Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio gyda'r Safonau Prydeinig perthnasol a chanllawiau'r Sefydliad Gweithwyr Goleuo Proffesiynol (ILP) er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosib o olau sy'n tynnu sylw ato'i hun, yn unol ag arfer gorau.

1.1.5 Mae Strategaeth Oleuo (**Atodiad 1**) wedi'i datblygu ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r Asesiad Traweffaith Goleuo yn asesu effeithiau posib y goleuo sy'n cael ei gynnig o fewn y ddogfen strategaeth hon ar dderbynyddion sydd wedi cael eu hadnabod o amgylch Safle'r Cais.

1.1.6 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r canlynol:

- Polisïau perthnasol ar gyfer goleuo sy'n tynnu sylw ato'i hun mewn perthynas uniongyrchol â'r Datblygiad Arfaethedig.
- Polisïau Cenedlaethol a Lleol perthnasol,
- Dogfennau Canllawiau perthnasol;
- Pam mae'r Datblygiad Arfaethedig angen golau artiffisial,
- Manylion ynghylch sut fydd goleuo'n cael ei roi ar waith ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig,
- Yr amgylchiadau goleuo presennol o fewn Safle'r Cais ac o'i amgylch.
- Y lleoliadau hynny sy'n sensitif i olau, ac;
- Effeithiau posib y goleuo arfaethedig.

1.1.7 Mae wedi cael ei adnabod bod Safle'r Cais wedi'i osod o fewn Anheddiad gwledig poblog (E3). Mae hyn oherwydd natur bresennol Safle'r Cais a'r ardaloedd cyfagos. Fodd bynnag, oherwydd natur lled-wledig yr ardaloedd sydd wedi'u lleoli i'r Dwyrain ac i'r De o Safle'r Cais, defnyddir meini prawf Parth Amgylcheddol 1 ar gyfer asesu effeithiau goleuo. Mae hyn yn darparu fframwaith mwy manwl gywir ar gyfer yr asesiad, gan sicrhau bod golau sy'n tynnu sylw ato'i hun yn cael ei reoli'n affeithiol.

1.1.8 Mae arolwg goleuo sylfaenol pen desg (**Adran 7**) ac ar y safle (**Adran 8**) wedi'i gynnal ar gyfer Safle'r Cais. Canfu hwn bod Safle'r Cais ar hyn o bryd yn dywyll gan mwyaf.

1.1.9 Roedd y tywyllwch hwn oherwydd y gwaith dymchwel ac adfer sy'n digwydd ar hyn o bryd ar Safle'r Cais, a bod y rhan fwyaf o'r goleuo wedi ei dynnu ymaith neu ei ddiffodd ar gyfer y gwaith yma. Yn flaenorol, byddai Safle'r Cais wedi cael ei oleuo'n well oherwydd y defnydd a wnaed ohono fel Alwminiwm Môn.

1.1.10 Bydd goleuo sy'n gysylltiedig gyda'r Datblygiad Arfaethedig yn cael ei ddylunio yn unol â'r Strategaeth Oleuo ar gyfer Safle'r Cais a amlinellir yn **Atodiad 1**.

1.1.12 Drwy roi'r Strategaeth Oleuo ar waith ni fydd derbynyddion dynol na threftadaeth yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan olau sy'n tynnu sylw ato'i hun, fel y dangoswyd yn **Adran 10**, **Atodiad 5** ac **Atodiad 6**.

1.1.13 Mae'r diagram dangosol o'r golau llorweddol sy'n disgyn oddi allan i'r ardal arfaethedig (**Atodiad 5**) a'r cyfrifiadau goleuo fertigol (**Atodiad 6**) dangosol wedi cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio'r Prif Gynllun Enghreifftiol. Mae hyn yn darparu senario resymol ar gyfer sut y gallai'r safle gael ei ddatblygu ond mae'r Cynllun Paramedrau yn gosod y paramedrau ar gyfer sut allai'r cynllun gael ei ddwyn ymlaen drwy geisiadau materion a gedwir yn ôl maes o law. Mae cyfrifiadau goleuo yn seiliedig ar y Strategaeth Oleuo y manylir arni o fewn Atodiad 1 ac mae'r holl gyfrifiadau golau sy'n tynnu sylw ato'i hun wedi'i wneud gan ddefnyddio ffactor gynnal o 1 (fel y'u disgrifir o fewn GN01:2021 a GN08:2023).

1.1.14 Mae'r asesiad goleuo yn seiliedig ar y Cynllun Paramedrau, tra'n defnyddio'r Prif Gynllun i brofi enghraifft o sut y gallai goleuo gael ei roi ar waith o fewn y gyfres o baramedrau a ddangosir ar y Cynllun Paramedrau.

1.1.15 Bydd **Ychydig** o effaith weddilliol ar dderbynyddion ecolegol. Bydd yr effaith hon yn cael ei chyfyngu i'r ardaloedd hynny sydd agosaf at yr ardaloedd sydd wedi'u goleuo o'r Datblygiad Arfaethedig, gyda'r rhan fwyaf o'r ardaloedd hyn yn cael eu cadw fel mannau tywyll. Mae hyn yn cynnwys yr ardal man gwyrdd a gadwyd, ac ni fydd yn profi unrhyw lefelau o olau uwchben y lefelau a argymhellir ac y manylir arnynt o fewn GN08:2023 (**Adran 10**, **Atodiad 5** ac **Atodiad 6**).

1.1.16 Bydd newid yn y lefelau goleuo sylfaenol oherwydd y Datblygiad Arfaethedig. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o ddod â'r lefelau goleuo sylfaenol ar Safle'r Cais yn ôl i'r lefelau tebyg pan oedd yn cael ei ddefnyddio gan Alwminiwm Môn.

1.1.17 Oherwydd y Strategaeth Oleuo (**Atodiad 1**) a'r mesurau lliniaru y manylwyd arnynt o fewn **Tabl 32** bydd lefelau'r golau sy'n tynnu sylw ato'i hun yn cael eu cadw o fewn y lefelau a nodir yn y canllawiau ar gyfer Parth Amgylcheddol E1. Mae hyn oherwydd gwelliannau mewn technoleg goleuo a'r dewis safonau priodol a modern ar gyfer yr ardaloedd fydd yn cael eu goleuo.